**Papur 'D'**

## Polisiau Cynllun Datblygu ar Gyfer Ynys Mon

Bydd ceisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu yn unol â pholisïau cynllun datblygu yr ardal ac ystyriaethau eraill o bwys. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993), Cynllun Lleol Ynys Môn (1996). Yn ychwanegol, mae Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn (a stopiwyd) (Rhagfyr 2005) yn ystyriaeth o bwys.

"Y Cynllun a Stopiwyd" - ar 1 Rhagfyr 2005 fe benderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn "stopio gweithio" ar CDU Ynys Môn a symud ymlaen i baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Gosodwyd y CDU Ynys Môn gerbron y cyhoedd yn Nhachwedd 2001, fe gyhoeddwyd newidiadau cyn yr arolwg a bu'r cynllun yn destun ymchwiliad cyhoeddus yn Haf 2003. Cyfnod ffurfiol olaf y broses CDU oedd adroddiad yr Arolygwr yng Ngorffennaf 2004. Mae'r dogfennau CDU hyn yn ystyriaethau o bwys wrth wneud penderfyniadau ond rhaid penderfynu ar y pwysau sydd i'w roddi i'r CDU yng ngoleuni'r polisïau, a'r gwrthwynebiadau sydd heb eu trafod, sydd yn berthnasol i'r cais sydd i'w benderfynu.

**Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications** **11.1**

Rhif y Cais: **12LPA854C/EIA/CC** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Property)**
**c/o Mr Jonathan Stoddard**
**Capita Symonds Ltd**
**Penrhos Manor**
**Oak Drive**
**Colwyn Bay**
**Conwy**
**LL29 7YW**

Ailwampio'r pier ynghyd a darparu pontwn glanio yn

Refurbishment of pier and provision of landing pontoon at

Beaumaris Pier, Beaumaris



**Pwyllgor Cynllunio: 28/07/10**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (MTD)**

**Argymhelliad:**

Ganiatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Datblygiad ar dir y Cyngor a'r safle yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Fel rhan o ddatblygiad Prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn mae'r Cyngor yn cynnig cynllun i ail wampio ac atgyfnerthu Pier Biwmares. Mae'r gwaith i gynnwys:

Gwaith decio newydd
Ail wneud y pier i'w hen lêd
Cryfhau'r parapet
Ailwampio'r ciosg a'r gysgodfan
Darparu pontŵn landio
Mwy o gryfhad a peils/polion

**2. Mater(ion) Allweddol**

Effaith ar gymeriad y pier/ardal gadwraeth.

Effaith ar yr Amgylchedd.

**3. Prif Bolisiau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

CH1 Datblygu ar gyfer Hamdden a Thwristiaeth
D1 Diogelu'r Amgylchedd
D4 Safle a Dyluniad
D22 Gosodiad Adeiladau Rhestredig
D25 Ardaloedd Cadwraeth
D29 Dyluniad
D33 Mwynderau Lleol

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 Polisi Cyffredinol
Polisi 30 Y Dirwedd
Polisi 40,41 Cadwraeth Adeiladau
Polisi 42 Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn (a stopiwyd 2005)**

GP1 Polisi Cyffredinol
GP2 Dyluniad
EN1 Cymeriad y Dirwedd
EN2 AHNE
Gwerthusiad Cymeriad Ardal Cadwraeth Biwmares

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – yn cefnogi

Cyngor Cymuned - yn cefnogi ond yn gwneud sylw am fynediad am ddim, a'i fod gael i'w ddefnyddio gan gychod yn ystod y gaeaf ac fe ellid sicrhau hyn trwy gadw'r grisiau presennol ar yr ochr ddeheuol.  Fe ddylai fod yna gyllideb flynyddol fydd yn ddigon i gael pontŵn newydd bob haf.

Priffyrdd – Dim Argymhelliad:

Asiantaeth yr Amgylchedd - Sylwadau / cyngor ynglŷn â llifogydd

Dwr Cymru – Yn argymell amodau

Stadau'r Goron – Dim gwrthwynebiad

Y Weinyddiaeth Amddiffyn – Dim gwrthwynebiad

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd – Argymell amod

Cyngor Gwynedd – Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor cyn belled ag na fydd yna niwed i fwynderau gweledol

Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor – Dim pryderon cyn belled ag y gellid glynu wrth y gwaith lliniaru sydd yn y datganiad Amgylcheddol.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru - Yn ystyried bod yr AEA wedi'i gynnal yn unol â'r rheoliadau ac yn tynnu sylw at bwyntiau ynglŷn â'r dirwedd ac effaith weledol.

Asiantaeth Forwrol ac Arfordirol - Sylwadau ynglŷn â'r caniatâd angenrheidiol

Cafwyd 1 llythyr gan breswylydd lleol gyda'r pwyntiau fel a ganlyn:

Mae pen draw Pier Biwmares o fewn Pysgodfa Wystrys a Chregyn Gleision Dwyrain Menai; mae'n anghyfreithlon tarfu ar wely'r môr o fewn pysgodfa.
Roedd gwaith drilio ymchwiliol yn ddiweddar yn torri Deddf Pysgodfeydd Môr.
Fe wnaeth Asiantiaid y Cyngor ddatganiad ffals ar y Cais Cynllunio trwy ddweud nad oedd gan unrhyw un arall ddiddordeb yn y safle.   Mae'r Cyngor yn gwybod bod gan grantîon Pysgodfa Dwyrain Menai ddiddordeb cyfreithiol yn y safle.
Mae'r Cyngor Sir a Chyngor y Dref wedi gofyn i'r Gweinidog Materion Gwledig newid y ffiniau fel na fydd pen draw'r pier a'r angorfeydd bellach yn y bysgodfa.
Nid yw'r ffiniau wedi'u symud.

Mae gwaith drilio yng ngwely'r môr yn anghyfreithlon.

Nid yw'r dyluniad yr un gorau, nid yw'n darparu ar gyfer defnyddio ochr ddwyreiniol a gorllewinol y pontŵn. Mewn tywydd garw bydd angen ei symud. Byddai strwythur arall efo rampiau ar bob ochr i'r pier yn rhedeg i blatfforms ar wahanol lefelau yn rhoi strwythur mwy cadarn heb darfu ar wely'r môr; gallai cychod ddod ger ochr y platfform fel y byddai'n eu siwtio hwy ar wahanol adegau o'r llanw.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim yn berthnasol.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Nodwyd bod angen gwneud gwaith ailwampio / gwella ar y Pier, Biwmares.

Mae'r gwaith a fwriedir wedi bod yn destun llawer o drafod. Mae'r effaith gaiff y gwaith ar y dirwedd, yr ardal cadwraeth ac ymhellach wedi eu hystyried ac rydym o'r farn bod y cynigion yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y diddordebau hynny sydd o bwysigrwydd cydnabyddedig.

At hyn, bydd y gwaith yn sicrhau integriti strwythurol y pier a'i fod yn cael ei gadw i'r dyfodol.

Ystyrir mai'r pontŵn yw'r dyluniad mwyaf priodol yn y lleoliad hwn a'i fod yn addas i'r pwrpas tra hefyd yn cydnabod sensitifrwydd y lleoliad hwn.

Ynghyd â'r cais fe gafwyd Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA). Nid rôl AEA yw dod i farn na gwneud argymhellion ynglŷn â rhinweddau'r cynllun neu a ddylai fynd yn ei flaen a'i peidio. Ei fwriad yn hytrach yw sicrhau bod yr effeithiau amgylcheddol tebygol yn cael eu gosod allan a'u deall fel y gallant gael eu hystyried cyn bod unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud i symud ymlaen gyda'r cynllun.

Fe gafwyd proses ymgynghori sylweddol gyda'r AEA fel y gwelir yn adran 4 o'r adroddiad hwn. Ni chafwyd unrhyw sylwadau croes a'r farn yw bod yr effeithiau amgylcheddol o fewn y cynllun wedi cael sylw a'u bod yn dderbyniol.

O safbwynt y pwyntiau a godwyd ynglyn a chyfreithlondeb gwneud y gwaith, mae'r manylion wedi'u hanfon ymlaen i'r ymgeisydd, asiant yr ymgeisydd a Chyfreithiwr y Cyngor. Mae'r cwestiwn a fydd y materion hyn yn cael unrhyw effaith ar y datblygiad yn fater sydd y tu allan i sgôp yr adroddiad hwn.

**7. Casgliad**

Y farn yw bod y cynllun arfaethedig yn un fydd yn caniatáu i'r holl waith angenrheidiol gael ei wneud tra ei fod ar yr un pryd yn talu'r sylw angenrheidiol i'r effaith ar fwynderau ac ar yr amgylchedd.

**8. Argymhelliad:**

Rhoi pwerau dirprwyedig i **ganiatau’r** cais gyda’r amodau a restrir isod a rhai eraill all fod eu hangen yn dilyn derbyn yr holl ymatebion ymgynghori.

**Caniatáu**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Reason: To comply with the requirements of the Town and Country Planning Act 1990.

**Gweddill y Ceisiadau** | **Remainder Applications** | **11.2**

Rhif y Cais: **19C967A** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Holyhead Town Council**
**c/o A Williams**
**48 Refail Farm**
**Rhoscolyn**
**Holyhead**
**LL65 2EX**

Codi estyniad i'r adeilad i greu ardal hyfforddi codi pwysau yn

Erection of an extension to create a weightlifting training area at

Millbank Sports Centre, Garreglwyd Road, Holyhead



**Pwyllgor Cynllunio: 28/07/10**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (AMG)**

**Argymhelliad:**

Ganiatad

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais ar dir y Cyngor.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r safle yn y safle chwaraeon yn Millbank, Caergybi sef yr adeilad cyfleusterau chwaraeon presennol, pêl-droed a hyfforddiant arall.

Bwriad yw hwn i godi estyniad i'r adeilad presennol i greu lle ymarfer codi pwysau.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion i'w hystyried yma yw â yw'r cynnig yn dderbyniol o safbwynt polisi, a oes dyluniad derbyniol i'r cynnig a'r effaith ar fwynderau'r eiddo cyfagos.

**3. Prif Bolisiau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 14 – Cyfleusterau Hamdden a Chymunedol
Polisi 42 – Dyluniad

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoliad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Cyffredinol
Polisi TO11 – Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden.

Polisi Cynllunio Cymru Cyfrol 2, Mehefin 2010.

**Nodyn Cyngor Technegol 16 Chwaraeon, Hamdden a Llefydd Agored.**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Cyngor Dref – Yn methu gwneud sylw.

Aelod Lleol - Oherwydd bod y tir yn dir yr Awdurdod Lleol, rhaid i hwn gael ei benderfynu

gan y Pwyllgor Cynllunio. Hefyd, rhaid gwneud cytundeb gyda gwahanol bartïon ynglŷn â defnydd a chyllid.

Priffyrdd – Dim argymhellion.

Dŵr Cymru – Dim ymateb wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Draenio – Sylwadau

Ymgynghori Cyhoeddus - Hysbyswyd y cynnig mewn tri dull: lleoli rhybudd safle ger y safle, dosbarthu llythyrau cyhoeddus i ddeiliaid eiddo cyfagos a rhoi rhybudd Erthygl 8 yn y papur newydd lleol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn yn yr adran. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau yw 21 Gorffennaf 2010.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

19C967 – Lleoli cynhwysydd i storio offer yng Nghae Chwaraeon Millbank, Caergybi – Caniatáu 09/1/2006.

19LPA813/CC - Codi adeilad i ddarparu ystafelloedd newid a chyfleusterau cysylltiol; darparu maes parcio, darparu llifoleuadau i'r trac presennol ac i'r caeau chwarae ac ail wynebu'r maes presennol i ddarparu cyfleusterau hoci a pel-droed yng Nghyfleusterau Chwaraeon Millbank, Caergybi - Dim gwrthwynebiad 02/05/2002.

19LPA813A/CC – Lleoli cynhwysydd i storio offer chwaraeon yng Nghyfleusterau Chwaraeon Millbank, Caergybi – Caniatáu 08/04/2005.

19LPA816B/CC – Cais i amrywio amod (03) i gyflwyno manylion llifoleuo ar ôl dechrau'r gwaith yn hytrach na chyn ei ddechrau – yng Nghyfleusterau Chwaraeon Millbank, Caergybi – Caniatáu 08/11/2007.

19LPA813C/CC – Cais i ail leoli dau o'r llifoleuadau 12m i mewn o'u lleoliad presennol a gostwng eu huchder 2m ynghyd â gosod ffens acwstig 3m ar dir yng Nghaer Chwaraeon Millbank, Caergybi – Caniatáu 22/12/2008.

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

**Polisi** – Yn fy marn i mae'r cynnig yn cydymffurfio gyda pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol.

**Dyluniad** – Y bwriad yw codi estyniad i'r adeilad presennol er mwyn darparu lle ymarfer codi pwysau. Mae yna ddigon o le ar y safle i fedru cymryd yr estyniad heb i'r lle edrych yn gyfyng ac wedi'i orddatblygu. Mae'r cynnig yn cynnwys matsio'r to a'r deunyddiau drychiadol sydd yn yr adeilad presennol. Fe ymddengys bod y cynnig yn foddhaol yn nhermau lleoliad, dyluniad a deunyddiau.

**Effaith ar fwynderau eiddo cyfagos** – Nid wyf yn meddwl y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r eiddo cyfagos o ystyried bod y cynnig wedi'i leoli ar libart y safle chwaraeon presennol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau croes wedi'u derbyn o ganlyniad i'r cyhoeddusrwydd roddwyd i'r cais.

**7. Casgliad**

Y bwriad yw codi estyniad i’r adeilad presennol i greu lle ymarfer ar gyfer codi pwysau. Mae’r safle yn gallu cymryd y cynnig yn rhwydd heb iddo edrych fel lle cyfyng neu le fyddai wedi cael ei ailddatblygu a hynny er niwed i gymeriad y lleoliad neu i fwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.  Yn fy marn i mae’r cynnig yn cydymffurfio gyda pholisïau cynllun lleol a chenedlaethol ac fe ddylid ei ganiatáu yn unol â’r amodau a ganlyn.

**8. Argymhelliad:**

**Ganiatad**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 28/04/2010  o dan cais cynllunio rhif 19C967A.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisiau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill di Faterol a Godwyd**

Dim

**Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications** **11.3**


Rhif y Cais: **19LPA925/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Property)**
**c/o RGR Partnership**
**1st Floor NatWest Bank Building**
**Glanhwfa Road**
**Llangefni**
**LL77 7EN**

Codi estyniad yng nghefn Erection of an extension to the rear of

87, Tan yr Efail, Holyhead



**Pwyllgor Cynllunio: 28/07/10**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (AMG)**

**Argymhelliad:**

Ganiatad

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cais gan yr Awdurdod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r annedd ar stad Tan yr Efail, Caergybi. Ty teras yw'r eiddo.

Y bwriad yw codi estyniad yng nghefn yr eiddo i roi mwy o le ar y llawr isaf.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y pethau allweddol i'w hystyried yma yw pa mor dderbyniol yw'r cynnig mewn termau polisi, a oes dyluniad derbyniol i'r cynnig ai peidio a'r effaith ar fwynderau eiddo cyfagos.

**3. Prif Bolisiau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 42 – Dyluniad
Polisi 58 – Estyniadau

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Safle
Polisi D29 – Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad

**Polisi Cynllunio Cymru Cyfres 2 Mehefin 2010**

**Tan 12 – Dyluniad**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Cyngor Tref – Dim gwrthwynebiad

Aelod Lleol – Dim ymateb wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Dwr Cymru – Sylwadau

Draenio – Sylwadau

Ymgynghori Cyhoeddus – Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i’r cynnig mewn dwy ffordd – lleoli rhybudd safle ger y safle a dosbarthu llythyrau personol i ddeiliaid eiddo cyfagos. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn nid oedd unrhyw sylwadau wedi’u derbyn yn yr Adran. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau oedd 16 Mehefin 2010.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Polisi** - Yn fy marn i mae’r cynnig yn cydymffurfio gyda pholisïau cynllun lleol a chenedlaethol.

**Dyluniad** – Mae’n cael ei gydnabod bod yr estyniad arfaethedig yn un o faint sylweddol ond mae yna ddigon o le ar y safle i fedru cymryd yr estyniad heb iddo edrych yn gyfyng ac yn orddatblygu. Mae’r cynnig i’w weld yn foddhaol o safbwynt ei leoliad, ei ddyluniad a’r deunyddiau.

**Dwr Cymru** - Wedi argymell amod ynglŷn â’r garthffosiaeth gyhoeddus. Oherwydd bod y cynnig yn golygu adeiladu dros y garthffosiaeth gyhoeddus, bydd amod yn cael ei gosod ar y penderfyniad yn dweud “Ni chaniateir dechrau unrhyw waith datblygu hyd nes y bo’r ymgeisydd wedi gwneud cytundeb “Adeiladu Dros neu Ger Garthffosiaeth Gyhoeddus” gyda Dwr Cymru Welsh Water neu fel all gael ei gytuno’n wahanol yn ysgrifenedig gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflwyno copi o’r cytundeb i’r awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau’r gwaith ar y safle”.

**Effaith ar fwynderau eiddo cyfagos** - nid wyf yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith ar fwynderau eiddo cyfagos i’r fath raddau fel ag y dylid gwrthod y cais. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad, nid oedd unrhyw sylwadau croes wedi’u derbyn o ganlyniad i’r cyhoeddusrwydd a roddwyd i’r cais.

**7. Casgliad**

Mae’r cynnig hwn yn golygu codi estyniad yng nghefn yr eiddo i ddarparu lle ychwanegol ar y llawr isaf. Mae’r safle’n gallu cymryd y cynnig yn hawdd heb i’r lle edrych yn gyfyng neu wedi’i orddatblygu a hynny er niwed i gymeriad yr ardal neu fwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos. Rwyf o’r farn bod y cynnig yn cydymffurfio gyda pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol ac fe ddylid ei ganiatáu yn unol â’r amodau canlynol.

**8. ARGYMHELLIAD:**

**Ganiatad**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Ni chaniateir dechrau unrhyw waith datblygu hyd nes y bo’r ymgeisydd wedi gwneud “Cytundeb Adeiladu Dros neu ger Garthffosiaeth Gyhoeddus” gyda Dwr Cymru Welsh Water neu fel all gael ei gytuno’n wahanol yn ysgrifenedig gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflwyno copi o’r cytundeb i’r awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau’r gwaith ar y safle.**

Rheswm: Er mwyn diogelu integriti’r garthffosiaeth gyhoeddus ac osgoi niwed iddi.

**(03) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 14/05/2010 o dan cais cynllunio rhif 19LPA925/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisiau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill di Faterol a Godwyd**

Dim

**Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications** **11.4**

Rhif y Cais: **29LPA913A/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Education)**
**c/o Mr David Robert Evans**
**Environmental and Technical Services**
**Swyddfeydd y Cyngor**
**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7TW**

Gosod gorsaf trin carthffosiaeth ar dir yn Installation of a sewage treatment plant on land at

Ysgol Ffrwd Win, Llanfaethlu



**Pwyllgor Cynllunio: 28/07/10**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (AMG)**

**Argymhelliad:**

Ganiatad

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cais gan yr Awdurdod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r safle yn ffurfio rhan o dir Ysgol Ffrwd Win, Llanfaethlu.

Cynnig yw hwn i newid y gwaith trin carthffosiaeth presennol gan ei fod uwchben y ddaear am waith trin carthffosiaeth newydd o dan y ddaear.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y pethau pwysicaf i'w hystyried yma yw effaith weledol y datblygiad a'i effaith ar fwynderau eiddo cyfagos.

**3. Prif Bolisiau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Safle
Polisi D19 – Carthffosiaeth

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Cyffredinol

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Cyngor Cymuned – Dim ymateb wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Yr Aelod Lleol - Dim ymateb wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Asiantaeth yr Amgylchedd - Dim yn gwrthwynebu'r cynnig ond bydd angen i'r ymgeisydd wneud cais am eithriad o dan y Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol i arllwys carthffosiaeth.

Dwr Cymru - Dim ymateb wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Draenio – Sylwadau

Addysg – Mae’r cais hwn yn cyfarfod ag anghenion yr ysgol a’r gwasanaeth.

Ymgynghori Cyhoeddus - Rhoddwyd cyhoeddusrwydd mewn dwy ffordd sef rhoi rhybudd safle ger y safle a dosbarthu llythyrau personol i berchenogion eiddo cyfagos. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau wedi’u derbyn yn yr adran. Dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau oedd 14 Gorffennaf 2010.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

29LPA913/CC – Cais ol ddyddiol i newid defnydd rhan o’r cae chwarae yn faes parcio ceir yn Ysgol Ffrwd Win, Llanfaethlu – Caniatau 16/12/2009

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Effaith Weledol** – Bydd y rhan fwyaf o’r gwaith yn y cynllun yn cael ei wneud o dan ddaear. Y bwriad yw newid y gwaith trin carthffosiaeth presennol sydd uwchben y ddaear gyda thanc GRP parod o dan ddaear.

**Effaith ar fwynderau cyfagos** - nid wyf yn ystyried y bydd y cais yn cael effaith niweidiol ar fwynderau eiddo cyfagos. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau o ganlyniad i’r cyhoeddusrwydd a roddwyd i’r cais.

**7. Casgliad**

Mae’r cynnig hwn yn golygu newid y gwaith trin carthffosiaeth presennol sydd uwchben y ddaear am waith trin carthffosiaeth newydd o dan y ddaear.

Ni ragwelir y bydd y datblygiad yn cael effaith ar fwynderau eiddo cyfagos nac yn cael effaith weledol ar y dirwedd oherwydd bod y tanc newydd yn cael ei osod o dan y ddaear.

**8. Argymhelliad:**

**Ganiatad**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 11/06/2010 o dan cais cynllunio rhif 29LPA913A/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisiau Perthnasol Eraill**

Dim

## 10. Ymatebion Eraill di Faterol a Godwyd

Dim

**Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications** **11.5**


Rhif y Cais: **31LPA68H/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Education)**
**c/o Mr Sean Pritchard**
**Isle of Anglesey County Council**
**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7TW**

Codi ffens 1.8m o uchder ar tu flaen yr Erection of a 1.8m high fence at the front of

Ysgol Gynradd Llanfairpwll, Llanfairpwll



**Pwyllgor Cynllunio: 28/07/10**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (EH)**

**Argymhelliad:**

Ganiatad

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais ar dir y Cyngor.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r ysgol gynradd ym mhentref Llanfairpwll ger hen ffordd yr A5. Mae yna anheddau yn ffrynt yr ysgol a ger ei hochrau ac mae garej ar y dde iddi.

Y bwriad yw codi ffens 1.8m o uchder yn ffrynt yr ysgol. Y nod yw rhwystro i rai dresmasu y tu allan i oriau'r ysgol ac i ddiogelu'r lle chwarae i blant yr ysgol.

**2. Mater(ion) Allweddol**

A yw lleoliad y ffens yn dderbyniol o safbwynt mwynderau.

**3. Prif Bolisiau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 42 – Dyluniad

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad.

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Rhoddwyd rhybudd safle ger y safle a rhybuddion unigol i eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau yw 2 Awst 2010. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn.

Os na cheir unrhyw sylwadau statudol pellach neu rai eraill ar ôl y dyddiad hwn, yna bydd y cais yn cael ei ryddhau.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

31LPA68 – Defnyddio'r tir ger Ysgol Gynradd Llanfairpwll fel maes chwarae. Nodwyd – 07.06.61.

31LPA68A – Defnydd o dir i ail fodelu'r Ysgol Gynradd yn Llanfairpwll. Nodwyd – 07.07.65.

31LPA68B – Lleoli dosbarth symudol yn Ysgol Gynradd Llanfairpwll. Nodwyd – 06.12.67.

31LPA68C – Lleoli 4 dosbarth symudol yn Ysgol Gynradd Llanfairpwll. Nodwyd – 12.03.67.
31LPA68D – Ailfodelu Ysgol Gynradd, Llanfairpwll. Nodwyd – 11.06.69.

31LPA68E – Lleoli dosbarth symudol ychwanegol yn Ysgol Gynradd Llanfairpwll. Nodwyd – 03.06.70.

31LPA68G/CC – Codi dau ddosbarth symudol ac uned toiled yn Ysgol Gynradd Llanfairpwll. Dim gwrthwynebiad – 05.05.76.

31LPA68G/CC - Dymchwel hen swyddfeydd Aethwy a chodi estyniad yn Ysgol Gynradd Llanfairpwll. Dim Gwrthwynebiad - 19.12.97.

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

**Dyluniad** – Mae'r ffens arfaethedig yn debyg i'r hyn sydd yno'n barod ar libart yr ysgol. Bydd y lliw a fwriedir (gwyrdd) yn toddi i mewn gyda'r pethau o gwmpas ac ni fydd y ffens yn cael effaith ar y coed sydd ar y safle.

## 7. Casgliad

Ystyrir bod y ffens yn dderbyniol yn y lleoliad hwn.

## 8. Argymhelliad:

**Caniatáu**

**(01) Rhaid dechrau'r datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn ag ef heb fod yn hwyrach na diwedd pum mlynedd sydd yn dechrau gyda dyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: I gydymffurfio gyda gofynion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid i'r datblygiad ganiateir yma gael ei wneud yn hollol unol â'r cynllun(iau) gyflwynwyd ar 02.07.2010 o dan gais cynllunio cyfeirnod 31LPA68H/CC**

Rheswm: I osgoi unrhyw amheuaeth.

## 9. Polisiau Perthnasol Eraill

Dim

## 10. Ymatebion Eraill di Faterol a Godwyd

Dim

**Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications** **11.6**

Rhif y Cais: **34LPA927/CC** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Education)**
**c/o Gareth Thomas**
**Architectural Serv. Manager**
**Anglesey County Council**
**Council Offices**
**Llangefni**
**Anglesey**
**LL77 7TW**

Newid amod (17) o ganiatad cynllunio 34C466A er mwyn galluogi newid defnydd yr adeilad o fod yn B1 (diwydiant ysgafn) i fod yn B8 (storfa a dosbarthiad) i gartrefu archifdy Cyngor Sir Ynys Mon yn

Variation of condition (17) of planning permission 34C466A to allow the change of use of building form B1 (light industrial) to B8 (storage and distribution) to house Anglesey County Council's archive record collection at

Unit 3 Former Cunliffe Site, Llangerfni



**Pwyllgor Cynllunio: 28/07/10**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DPJ)**

**Argymhelliad:**

Ganiatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais hwn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd mai Cyngor Ynys Môn yw'r ymgeisydd.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn i ddefnyddio'r adeilad ffram bortal presennol fel archifdy.

Roedd yr amod gwreiddiol yn cyfyngu'r defnydd i B1 (diwydiannol ysgafn) er budd mwynderau'r ardal.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Mwynderau preswyl
-

**3. Prif Bolisiau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 (Cyffredinol)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn**
**CDU**

GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)

**Polisi Cynllunio Cymru (2010)**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – Dim sylwadau wedi'u derbyn.

Cyngor Cymuned - Dim sylwadau wedi'u derbyn.

Priffyrdd - Dim sylwadau wedi'u derbyn.

Gwasanaethau Amgylcheddol - Dim sylwadau wedi'u derbyn.

Datblygu Economaidd – Yn cefnogi'r cais oherwydd os na cheir adeilad arall fydd yn lle addas a chymeradwy i'r Archifdy, mae yna bosibilrwydd y byddant yn cael eu colli o'r Ynys.

Draenio – Dwr wyneb ddim yn cael ei effeithio.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

34C466 - Dymchwel yr adeilad presennol ac adeiladau 4 o unedau diwydiannol 10,000 troedfedd sgwâr a gwaith altro i'r fynedfa bresennol - Ganiatau 28.04.03.

34C466A - Dileu amodau 15 a 10 o ganiatâd cynllunio 34C466 – Ganiatau 165.07.03.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Effaith ar Fwynderau a llygredd**

Mae Polisi 1 o Gynllun Lleol Ynys Môn a GP1 o'r Cynllun Lleol Ynys Môn a Stopiwyd yn ymwneud ag effaith ar fwynderau preswyl a bydd problemau llygredd a niwsans yn cael eu hasesu wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn dweud ei bod yn ddilys ystyried yr effaith gaiff cynnig ar fwynderau eiddo cyfagos. Yn amodol ar sylwadau Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor, nid ydym yn meddwl y bydd defnyddio'r adeilad hwn fel archifdy yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau'r eiddo preswyl yn Tan Capel tua'r gogledd-ddwyrain.

**7. Casgliad**

Yn amodol ar dderbyn sylwadau sydd ar ôl, bod y cais hwn yn cael ei ganiatáu.

**8. Argymhelliad:**

Yn amodol ar dderbyn sylwadau gan yr ymgynghorwyr sydd heb ateb, awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio i **Ganiatau'r** cais gyda'r amodau a ganlyn:

**(01) Rhaid cychwyn y datblygiad y cyfeirir ato yn y caniatad cynllunio hwn ddim hwyrach na (phum) mlynedd o ddyddiad y caniatad hwn.**

Rheswm: I gydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Defnyddir yr eiddo yn unig ar gyfer dibenion Archif a ddiffiniwyd yn Nosbarth B8 o'r Atodlen i Orchymyn (Dosbarthiadau Defnydd) Cynllunio Gwlad a Thref 1987.**

Rheswm: I sicrhau nad oes unrhyw ddefnyddiau amhriodol yn digwydd yn yr ardal yma.

**(03) Rhaid i amserau/dyddiau agor y datblygiad sydd drwy hyn yn cael ei gymeradwyo gael ei gytuno mewn sgwennu gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau'r datblygiad a ni chaiff y defnydd agor/gweithio y tu allan o'r amserau/dyddiau gymeradwywyd.**

Rheswm: I warchod amwynderau preswyl anheddau gyfagos.

**(04) Ni chaniateir i lefel sŵn sy'n gysylltiedig a'r datblygiad fod ddim uwch na 30 db (a) Laeq yn ystod unrhyw gyfnod o awr pan gaiff ei fesur o unrhyw bwynt ar Stad**

**Tan Capel, Llangefni.**

Rheswm: I warchod amwynderau preswyl anheddau gyfagos.

**(05) Mae'r caniatâd roddir yma yn dileu amod 17 o ganiatad cynllunio 34C466A.**

Rheswm: I ddifinio cwmpas y caniatad.

**9. Polisiau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill di Faterol a Godwyd**

Dim wedi'i dderbyn ar amser ysgrifennu'r adroddiad.

**Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications** **11.7**

Rhif y Cais: **37LPA926/CC** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Head of Service Property**
**c/o Head of Service**
**Environment and Technical Services**
**Anglesey County Council**
**Council Offices**
**Llangefni**
**Anglesey**
**LL77 7TW**

Cadw'r gwaith i'r talcen, addasu ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerddwyr yn

Retention of works to gable end, alterations thereto together with the construction of a new pedestrian access at

Post Office, Siop Tai Newydd, High Street, Brynsiencyn



**Pwyllgor Cynllunio: 28/07/10**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (EH)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais wedi cael ei gyflwyno gan y Cyngor ar dir y Cyngor.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r Swyddfa Bost yng nghanol pentref Brynsiencyn. Adeilad pâr un llawr gyda tho crib ydyw. Mae yna dai eraill a busnesau o gwmpas y Swyddfa Post.

Mae'r cynllun yn bwriadu cadw gwaith i dalcen yr adeilad, ac adeiladu platfform a grisiau i fynd i'r Swyddfa Bost.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y mater allweddol yw – pa mor dderbyniol yw'r dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir yn y datblygiad.

**3. Prif Bolisiau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 42 – Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddy Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – Dim ymateb hyd yma

Cyngor Cymuned – yn cefnogi'r cais

Priffyrdd – Sylwadau

Draenio – Sylwadau

Rhoddwyd rhybudd safle ger y safle ynghyd â rhybuddion unigol i eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 7 Gorffennaf 2007 ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Ystyrir bod y deunyddiau a'r dyluniad a ddefnyddir yn y datblygiad hwn yn rhai derbyniol yn y lleoliad hwn.

Fe ofynnwyd cwestiynau ynglŷn â'r grisiau i fynd i mewn i'r eiddo ac a yw hyn yn cydymffurfio gyda gofynion Rheoliadau Adeiladu ar gyfer mynediad i rai anabl. Fodd bynnag, cais gan y Cyngor yw hwn ar dir y Cyngor ac mae unrhyw faterion fydd heb eu trafod neu fydd ar ôl, yng nghyswllt deddfwriaeth ar wahân, yn fater i Adain Eiddo'r Cyngor eu datrys.

**7. Casgliad**

Mae'r cynnig yn cael ei ystyried fel un derbyniol yn y lleoliad hwn, yn amodol ar i'r uchod gael ei ddatrys yn y dyfodol.

**8. Argymhelliad:**

**Caniatáu.**

**9. Polisiau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill di Faterol a Godwyd**

Dim

**Gweddill y Ceisiadau** | **Remainder Applications** | **11.8**

Rhif y Cais: **39LPA589N/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Education )**
**c/o Richard Oaks**
**Environment and Technical Services**
**Anglesey County Council**
**Council Offices**
**Llangefni**
**Anglesey**
**LL77 7TW**

Codi is-orsaf 11kv ar dir yn

Erection of a 11kv substation on land at

David Hughes County Secondary School, Menai Bridge



**Pwyllgor Cynllunio: 28/07/10**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (JBR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cais gan yr Awdurdod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle'r cais o fewn libart Ysgol Uwchradd David Hughes, Porthaethwy.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y mater allweddol yma yw - a yw gosodiad a dyluniad yr is-orsaf arfaethedig yn dderbyniol.

**3. Prif Bolisiau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinnol
42 - Dylunio

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dylunio
D29 – Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
GP2 – Dylunio

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad
Dwr Cymru – Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad
Cyngor Cymuned – Arghymell Caniatau
Priffyrdd – Dim Argymhelliad:
Draenio - Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad

Gwasanaethau Amgylcheddol – Dim Sylwadau.

**Ymateb i Ymgynghoriad**

Dim wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

39LPA589/CC – Gosod dysgl lloeren – Dim gwrthwynebiad 4/4/90

39LPA589A/CC – Estyniad i bloc technegol – Caniatau 17/12/93

39LPA589B/CC – Gosod uned symudol sengl i greu dosbarth – Dim gwrthwynebiad 19/9/95

39LPA589C/CC – Cadw'r ystafell ddosbarth dros dro ynghyd a creu cyfleusterau parcio ychwanegol – Dim gwrthwynebiad 12/8/96

39LPA589D/CC – Addasu ac ehangu – Dim gwrthwynebiad 4/6/98

39LPA589F/CC – Newid defnydd tir i greu maes parcio ynghyd a creu lon mynedfa newydd – Dim gwrthwynebiad 14/8/02

39LPA589G/CC – Creu man chwarae pob tywydd/cyrtiau tenis gyda ffens o'i amgylch ynghyd a codi llifoleuadau – Dim gwrthwynebiad 14/8/02

39LPA589H/CC – Codi neuadd chwaraeon – Caniatau 22/12/03

39LPA589J/CC – Dymchwel y ffens a wal gerrig a codi ffens mesh newydd – Caniatau 5/2/04

39LPA589K/CC – Estyniad i gegin – Caniatau 2/7/08

39LPA589M/CC – Codi 3 arwydd i gyfeirio'r cyhoedd i'r ganolfan hamdden – Caniatau – 31.7.08

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae angen yr is-orsaf drydan 11kv parod arfaethedig i fod o fudd i iechyd a diogelwch staff, disgyblion ac aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio'r ysgol.

Mae'r is-orsaf i'w lleoli i'r de-ddwyrain o adeilad yr ysgol ger ardal parcio'r staff a bydd draw oddi wrth fannau lle mae disgyblion yn casglu.

Ystyrir bod yr is-orsaf arfaethedig yn dderbyniol o safbwynt lleoliad a dyluniad ac nid yw'n cael ei ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau'r ardal.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod lleoliad a dyluniad yr is-orsaf arfaethedig yn dderbyniol.

**8. Argymhelliad:**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum**

**mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 18.6.10 o dan cais cynllunio rhif. 39LPA589N/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisiau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

31 – Tirwedd

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D3 – Ardaloedd Gwarchod Tirwedd

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

EN1 – Cymeriad Tirwedd

TAN 12 – Dylunio

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 2, Mehefin 2010

**10. Ymatebion Eraill di Faterol a Godwyd**

Dim